

***Rali Fawr Nid yw
Cymru ar Werth***

Cynllun Diogelwn

***Achub Capel
Tom Nefyn***



DIOGELWN

Simon Chandler

CYFREITHIWR AC AELOD O'R GYMDEITHAS

Ar 1 Mehefin y llynedd, funud ar ôl iddo gael ei gyhoeddi, fe anfonodd ffrind sgrinlun ata i o drydariad arwyddocaol gan y bardd a'r awdur, Siân Northey. Darllenais: “Ydi hi'n bosib rhoi cymal wrth werthu tŷ nad ydi'r enw i gael ei newid? Dw i'n mynd o flaen gofid, ond mae cymaint o straeon am bobl yn gwneud ac mi fusa fo'n torri 'nghalon i.”

Sylweddolais ar ôl ychydig o fyfyrddod y byddai hynny'n gwbl bosib, ac nid yn unig i Siân, ond hefyd i bobl ar hyd a lled Cymru. Wyth mis yn ddiweddarach, ar ôl digon o waith caled ond pleserus, heb sôn am gydweithredu gwydych gyda Siân (yng nghyd-destun gwerthiant ei thŷ, Neuadd Ddu), y cyfreithiwr

digryffelyb (a'r prifardd), Emyr Lewis, a sawl cyd-aelod o'r Gymdeithas, fe gafodd cynllun DIOGELWN ei lansio fis Chwefror eleni.

Amcan y cynllun (wrth gwrs) yw diogelu enwau Cymraeg ar dai fel eiddo cymunedol er mwyn cenedlaethau'r dyfodol. Gan nad oes gen i awydd eich diflasu chi mewn unrhyw ffordd, wna i ddim egluro sut mae'n gweithio o safbwynt cyfreithiol, ond gallwch fod yn sicr bod y dull rwyf wedi'i ddefnyddio ar gyfer y cynllun yn un profedig.

Petasai DIOGELWN yn rysâit, pobl Cymru fyddai'r cynhwysyn hudol, oherwydd mai partneriaeth

rhyngddyn nhw a Chymdeithas yr Iaith yw hanfod y cynllun. Er mwyn iddo lwyddo, bydd angen i ddigon o bobl ledled Cymru sy'n berchen ar dai ag enwau Cymraeg deimlo'n ddigon angerddol dros warchod yr enwau hynny i ymuno â'r cynllun.

Mae yna ddwy ffordd o wneud hynny: naill ai drwy gynnwys cymal penodol yn y cytundeb gwerthu os ydych chi'n gwerthu eich tŷ, neu drwy lofnodi dogfen benodol ynglŷn â'ch tŷ os nad ydych yn bwriadu'i werthu ar hyn o bryd.

Gellir lawrlwytho'r cymal a'r ddogfen yn rhad ac am ddim oddi ar dudalen hafan DIOGELWN ar wefan y

Gymdeithas ac, yn y ddau achos, fe fydd addewidion arbennig i beidio â newid enw'r tŷ perthnasol yn cael eu rhoi i'r Gymdeithas a'u cofrestru gyda'r Gofrestrfa Tir i'w diogelu. Iawn, mae angen cyfreithiwr i gwblhau'r ffurfioldebau, ond bydd yn rhaid i chi gyfarwyddo un beth bynnag os ydych chi'n gwerthu eich tŷ. Mae'n rhwydd a didrafferth.

Mae'n amlwg bod Senedd Cymru yn gyndyn o ddeddfu yn y maes hwn ar hyn o bryd, ond gogoniant y peth yw nad oes angen aros iddyn nhw weithredu: gallwn wneud hynny'n hunain, diolch i'r Gymdeithas, ac mae gan bob un ohonom rôl i'w chwarae. Rydw i'n erfyn ar bob aelod

o'r Gymdeithas i fod yn llysgennad i DIOGELWN drwy sôn amdano wrth ffrindiau a chydnabod, oherwydd dyna fydd yn gwneud byd o wahaniaeth. Ar yr un pryd, byddwn yn parhau i roi pwysau ar ein gwleidyddion i ddeddfu er mwyn diogelu enwau Cymraeg ar dai, yn ogystal ag enwau lleoedd.

Fel Sais (er nad ydychydig i'n teimlo fel un bellach), rydw i'n cael fy ysbrydoli bob dydd nid yn unig gan orchestion y Cymry Cymraeg a'u hynafiaid sydd wedi cynnal iaith a diwylliant yn wyneb gormes ddi-baid ers canrifoedd heb fawr o gymorth gan neb, ond hefyd gan waith arwrol y Gymdeithas fel carfan bwyso heb ei hail sydd wastad yn sefyll yn gefn i'r Gymraeg. Yr ysbrydoliaeth honno sydd wrth wraidd DIOGELWN.

Felly, os gwelwch yn dda, helpwch ni i wneud gwahaniaeth: gallai pob sgwrs am y cynllun achub enw Cymraeg ar dŷ.

Mae holl ddogfennau cynllun Diogelwn ar gael yn:

**cymdeithas.cymru/
diogelwn**

Dod â'r Gymraeg i aelwydydd dwyieithog yn ystod y cyfnod clo

Mae cwmni teganau Cymraeg cyntaf Cymru, Si-lwli Cymru, yn gobeithio bod yn gymorth i rieni di-Gymraeg ac aelwydydd dwyieithog yn ystod cyfnodau clo Cofid-19.



Sefydlodd **Awena Walkden** a'i gŵr, ill dau o Borthaethwy, gwmni Si-lwli Cymru yn 2016 i fynd i'r afael â sterics amser gwely.

"Roedd fy merch, Cadi, yn cael trafferth cwmpo i gysgu, ac fe wnaethon ni ddyfeisio Seren Swynol, tegan sy'n canu hwiangerddi Cymraeg."

"Fe aethon ni ymlaen wedyn i ddyfeisio Draigi ar gyfer fy mab Mabon, sef draig goch sy'n canu caneuon byd rygbi Cymru; o Sosban Fach i Calon Lân!"

"Doedden ni ddim wedi bwriadu i'r peth fynd ymhellach na'n pedair wal ni. Mi sefydlon ni gwmni heb drio!"

Ond fe fu bron i'r cwmni fynd i'r wal yn 2019, ar ôl i sgam hacio ddwyn £18,000 oddi ar y cwmni teuluol. Ar ôl y golled ariannol enfawr, anawsterau yn ymwneud â Brexit a mewnfario, a chyfnodau clo Cofid-19, mae Awena Walkden yn gobeithio y gall y cwmni "godï ar ei draed".

Meddai Awena:

"Mae ein teganau yn wych ar gyfer rhieni di-Gymraeg. Maen nhw'n cyflwyno'r Gymraeg i gartrefi mewn ffordd hwylus."

"Mae rhieni'n sôn am ba mor sydyn mae eu plant yn ymateb i'r teganau. Mae'r teganau sy'n canu yn helpu plant gyda sgiliau allweddol iaith. Maent yn clywed tôn yr iaith, a'r ffordd mae'r llythrennau'n cael eu hynganu."

"Bellach, mae Helo Heddiw! (ein calendr magnetig Cymraeg) yn wych ar gyfer cyflwyno'r Gymraeg i gartrefi di-Gymraeg a dwyieithog."

Mae'n galluogi'r uned deuluol i ddysgu dyddiau'r wythnos, dyddiadau, y tywydd, y tymhorau a'r misoedd gyda'i gilydd."

"Mae'n gwneud y Gymraeg yn rhan flaenllaw o fywyd bob dydd teuluoedd. Mae'n cael ei chlywed."

Sefydlwyd Si-lwli Cymru oherwydd anghenion y teulu, ond gwelodd Awena bod diffyg teganau Cymraeg yn anfantais fawr i'r iaith.

Yn ôl Awena:

"Mewn cartrefi dwyieithog, mae gan y Saesneg fantais enfawr. Mae 'na adnoddau di-ben-draw ar gael yn yr iaith honno. Mae'n bwysig iawn i blant allu cysylltu gyda'u hiaith mewn ffordd hwylus, a'r ffordd orau o neud hynny yw drwy chwarae."



CONSENSWS TRAWSBLEIDIOL O BLAID DATGANOLI DARLLEDU

Elfed Wyn ap Elwyn

CADEIRYDD GRŴP DIGIDOL CYMDEITHAS YR IAITH

Mae bod yn ymgyrchydd iaith yn gallu bod yn rhwystredig tu hwnt: mae cymaint o newyddion drwg ac yn aml ymddengys nad yw pethau'n gwella o gwbl, mewn unrhyw ffordd. Ond bob hyn a hyn, diolch i waith caled gan ymgyrchwyr brwd, gwelwn newid. Mae cyhoeddiad diweddar Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r Senedd yn enghraifft sy'n dangos bod modd newid pethau er gwell.

Mae'r adroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth, yn galw am drosglwyddo nifer o rymoedd darlledu i Gymru.

Noda'r adroddiad mai:

"Barn y Pwyllgor yw y byddai rhoi

mwyl o gyfrifoldebau darlledu i'r Senedd a Llywodraeth Cymru yn gwella darpariaeth y cyfryngau yng Nghymru yn sylweddol. Dylai Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y Deyrnas Unedig ac Ofcom nodi sut y gellir gwella'r cynnwys a ddarperir ar y cyfryngau i gynulleidfaoedd yng Nghymru."

"O ran penderfynu a ddylid datganoli Darlledu yng Nghymru, nid y cwestiwn i'w ofyn yw 'a ddylid datganoli darlledu?', yn hytrach, 'faint o ddarlledu y dylid ei ddatganoli?'"

Ymhlith yr argymhellion eraill, galwa'r adroddiad am *"ddatganoli pwerau dros S4C a materion eraill sy'n ymwneud â darlledu Cymraeg er*



gwasanaeth cyhoeddus, i Gymru", yn ogystal â rhoi "rôl ehangach [i Lywodraeth Cymru] wrth bennu telerau'r drwydded Sianel 3 nesaf i Gymru".

Mae hyn yn newyddion calonogol iawn. Yn dilyn blynyddoedd o ymgyrchu gan ymgyrchwyr, mae yma, am y tro cyntaf erioed, gonsensws trawsbleidiol o blaid datganoli darlledu. Mae'r consensws trawsbleidiol hwn yn drobwynt yn yr ymgyrch, ac yn wir, yn hanes darlledu yng Nghymru. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi chwarae rhan yn yr ymgyrch yma dros y blynyddoedd, yn enwedig y rhai a wnaeth aberth personol.

Er mwyn gwireddu dymuniad y Pwyllgor am ddatganoli grymoedd darlledu i Gymru, bydd angen i lywodraeth nesaf Cymru sefydlu corff rheoleiddio newydd i Gymru a fyddai'n cymryd lle Ofcom. Byddai'r corff annibynnol hwn yn gyfrifol am reoleiddio meysydd cyfathrebu a thelathrebu er lles y Gymraeg a democratiaeth Cymru. Byddai modd iddo hefyd hyrwyddo'r defnydd o gynnwys Cymraeg a Chymreig ar yr holl lwyfannau digidol, yn ogystal â dylanwadu ar y cwmnïau sy'n gweithredu yn y meysydd hyn. Credwn y byddai hyn yn hwyluso argymhellion yr adroddiad ac yn galluogi iddynt gael eu gweithredu'n effeithiol.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi mandad i ba blaid neu bleidiau bynnag fydd yn ffurfio'r llywodraeth nesaf. Mae'n hanfodol felly ein bod yn grymuso'r Senedd gyda'r holl bwerau fydd eu hangen er mwyn newid polisi darlledu a thelathrebu er lles y Gymraeg a'n democratiaeth. Dyma gyfle gwirioneddol i ni aeddfedu fel gwlad ddemocrataidd a sicrhau y bydd y Gymraeg yn addasu'n ddigonol i'r oes ddigidol. Bydd sefydlu corff penodol, y Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol, yn gwneud cyfraniad pwysig at gynyddu defnydd y Gymraeg yn yr oes ddigidol, fel rhan o agenda 'Mwy na Miliwn' ein llywodraeth genedlaethol nesaf.

Galwn felly ar y pleidiau nid yn unig i gynnwys ymrwymiad i ddatganoli darlledu yn eu manifestos, ond hefyd i gynnwys ein galwadau penodol ni (isod), er mwyn sicrhau y bydd pwerau darlledu wir yn nwylo pobl Cymru.

Mae Cymdeithas yr Iaith yn galw ar lywodraeth nesaf Cymru i fynnu bod holl rymoedd darlledu yn nwylo pobl Cymru, ac yn dilyn hyn, sefydlu, gan ddefnyddio'r grymoedd newydd:

(1) *Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol fel corff rheoleiddio annibynnol, a fyddai'n llunio rheoliadau er mwyn, er enghraifft, sicrhau mai newyddion cenedlaethol Cymru sydd ar radio fasnachol a bod canran sylweddol o radio a theledu masnachol yn Gymraeg;*

(2) *Llwyfan cyfryngol a sianel deledu Gymraeg newydd i blant a phobl ifanc;*

(3) *Gorsaf radio genedlaethol Gymraeg newydd yn annibynnol ar y BBC;*

(4) *Sianel deledu ddwyieithog newydd i Gymru drwy bartneriaeth rhwng nifer o ddarlledwyr a darparwyr cyfryngol;*

(5) *Gwasanaeth newyddion aml-gyfryngol annibynnol newydd a fyddai'n darparu newyddion i S4C;*

(6) *Menter Ddigidol Gymraeg er mwyn gwella presenoldeb a defnydd y Gymraeg ar-lein.*

Os ydych chi'n cytuno, ewch i cymdeithas.cymru/deisebdatganolidarlledu i lofnodi'n deiseb.

Gyda'n gilydd, fe enillwn y frwydr dros ddatganoli darlledu.



Dilynwch waith y Grŵp Digidol ar Twitter:
[@grwpdigidol](https://twitter.com/grwpdigidol)

DIGWYDDIAD CEFNOGI SIARADWYR NEWYDD

Wrth geisio cyrraedd miliwn o siaradwyr, mae'n hollbwysig ymestyn allan at ein dysgwyr.

Dyma ddigwyddiad arbennig i drafod y gwaith o gefnogi siaradwyr newydd yn ein cymunedau.

Mae croeso cynnes i bawb yn y weminar a bydd cyfle i ofyn cwestiynau i'n panel ar y noson.

Cysylltwch â post@cymdeithas.cymru am fwy o wybodaeth neu i gael manylion ymuno â'r weminar.

Siaradwr newydd

Pryd: 7yh, nos Fercher, 26 Mai

Cadeirydd: Catrin Beard

Panel: aelodau o fudiadau cenedlaethol a chymunedol

Siaradwr newydd

Croesewir cwestiynau o flaen llaw yn ogystal.

Diolch i www.paned.cymru am gael defnyddio lluniau o'u sticeri.



ACHUB CAPEL TOM NEFYN

Mae cymuned Pistyll yn Llŷn angen cyrraedd targed o £120,000 i achub Capel Bethania a'i droi'n ganolfan gymunedol.

Os na fyddwn yn cyrraedd y targed mae perygl i ni golli adeilad arall sydd o bwys cymunedol a chenedlaethol. Dyma 'Capel Tom Nefyn', sef y Parchedig Tom Nefyn Williams a fu'n ei fynychu fel plentyn. Roedd yn ffigwr amlwg yn Llŷn a thrwy Gymru gyfan wrth genhadu am hawliau i'r Gymraeg, cyfiawnder cymdeithasol a'r hawl i bobl gael cartrefi. A ninnau ym merw ymgyrchoedd Nid yw Cymru ar Werth a Hawl i Fyw Adra, mae ei genhadaeth yn taro tant wrth feddwl am yr heriau sy'n wynebu ein cymunedau ni heddiw.

Roedd Tom Nefyn yn hawlio pob man yr âi wrth bregethu yn ei ddull

unigryw ei hun. Yn y capel, neuaddau, ysbytai, tafarndai, ac ar y strydoedd. Rhaid i ninnau hefyd hawlio ein lle, neu mi fydd yn cael ei ddwyn oddi arnom.

Roedd y capel ar fin mynd ar werth drwy ocsiwn rhwng 22-24 Mawrth, ac yn cael ei hysbysebu gan y gwerthwyr tai fel datblygiad uned gwyliau. Achos fel gwyddai pawb, mae prinder mawr ohonyn nhw yma yng Nghymru yn does?

Mae pentref gwyliau cyfan wedi cael ei adeiladu ar hen safle Plas Pistyll er gwaethaf gwrthwynebiad ac ymdrechion y gymuned i'w atal. Mae'r tai yn dal i sefyll yn wag.

Y bwriad gan berchnogion y capel oedd byw ynddo fel cartref parhaol, ond yn amlwg bu newid yn y cynlluniau. Mae'r perchnogion wedi

Cronfa Capel Bethania, Pistyll Mared Llywelyn

cytuno i ohirio'r ocsiwn tan 19 Mai i roi cyfle i'r gymuned gasglu'r arian.

Mae trafodaethau wedi bod gyda syniadau am ddefnyddio'r adeilad fel hwb cymunedol, byncws, caffi bach a lle i gofio am gyfraniad Tom Nefyn. Yn y pen draw, dylai'r penderfyniad fod yn nwylo'r bobl leol. Lle i bobl gymdeithasu, cyfrannu i'r gymuned. Yn syml, gwneud defnydd da o'r lle.

Os medrwch, cyfrannwch. Mae pob ceiniog yn cyfri.

Os na fydd y gronfa yn llwyddo i brynu'r capel, bydd yr holl arian yn y gronfa yn cael ei ddychwelyd.

Mae croeso i chi gyfrannu ar dudalen **GoFundMe Cronfa Capel Bethania Pistyll**.

<https://uk.gofundme.com/f/cronfa-capel-bethania-pistyll>

Cais i wirio eich archeb banc

Os ydych yn talu eich tâl aelodaeth drwy archeb banc (yn fisol, yn chwarterol neu'n flynyddol), gofynnir yn garedig i chi wirio a yw'r archeb banc yn dal yn weithredol ac a ydych yn talu'r swm priodol.

Fe newidiodd y telerau aelodaeth ym mis Ionawr – mae'r tâl aelodaeth llawn bellach yn isafswm o £2 y mis a'r tâl aelodaeth gostyngol yn £1 y mis. Os nad ydych yn talu'r swm priodol, a wnewch chi gysylltu efo'ch banc a'i newid os gwelwch yn dda, a gwnewch yn siŵr hefyd bod eich rhif aelodaeth yn cael ei ddefnyddio fel cyfeirnod (cysylltwch os nad ydych yn cofio eich rhif aelodaeth). Mae llawer iawn ohonoch yn talu mwy na'r lleiafysymiau hyn yn barod, ac rydym yn ddiolchgar iawn i chi am hynny!

Os ydych yn darganfod nad yw'r archeb banc yn weithredol bellach, bydd angen i chi ail-ymaelodi. Gallwch sefydlu archeb sefydlog newydd yn uniongyrchol gyda'ch banc (manylion pellach yma:

cymdeithas.cymru/aelodaeth)

ond cofiwch roi gwybod os ydych yn gwneud hynny a chofiwch ddefnyddio'ch rhif aelodaeth fel cyfeirnod.

RALI FAWR NID YW CYMRU AR WERTH

Mae Cymdeithas yr Iaith wedi cyhoeddi, yn amodol ar reolau Cofid-19, y bydd dros 300 o gefnogwyr yn ffurfio rhes ar hyd Argae Tryweryn yn symbol o'u hymrwymiad i sefyll yn erbyn grymoedd y farchnad dai sy'n tanseilio cymunedau Cymru.

Am 1yp ddydd Sadwrn 10^{fed} o Orffennaf, byddwn yn sefyll ar hyd yr argae 600medr ger y Bala, gyda 2 fedr o bellter rhyngom, ac yn codi baneri yn dwyn enwau ein cymunedau lleol. Caiff y cyfan ei ffilmio gan ddrôn a'i ddarlledu'n fyw ar y cyfryngau cymdeithasol. O flaen y weithred symbolaidd, anerchir y dorf gan Delyth Jewell a Dafydd Iwan.

Osian Jones:

“Dan ni'n falch iawn bod Dafydd Iwan a Delyth Jewell – dau ymgyrchydd a gwleidydd o ddwy gornel wahanol o Gymru – yn rhannu llwyfan i ddangos fod y farchnad dai yn chwalu cymunedau lleol ledled y wlad. Mae'n achosi gwahanol fathau o broblemau mewn gwahanol ardaloedd, ond yr un yw'r canlyniad: bod pobl ifanc

yn methu cael hyd i gartrefi yn eu cymunedau eu hunain. Bydd y bobl sy'n bresennol yn Rali Tryweryn yn llofnodi datganiad enfawr yn galw ar y llywodraeth newydd i basio Deddf Eiddo fel mater o frys i amddiffyn ein cymunedau.

“Yn ystod yr wythnosau nesaf, byddwn yn cyhoeddi enwau rhagor o bobl fydd yn cymryd rhan yn y rali, ac enwau pobl amlwg a fydd yn llofnodi'r alwad ar y llywodraeth newydd. Rydyn ni'n aros tan ganol yr haf i gynnal y rali er mwyn sicrhau'r cyfle gorau y byddwn yn gallu cynnal rali fawr i anfon neges glir i'r llywodraeth newydd, gan barchu gofynion ieuchyd cyhoeddus o ran cadw pellter cymdeithasol. Os daw cannoedd yn rhagor i'r rali, bydd digon o le i ffurfio dwy linell ar draws yr argae, a bydd lle i chwaneg ar hyd y glannau.”

Mabli Siriol, Cadeirydd Cymdeithas yr Iaith:

“Rhaid i lywodraeth nesaf Cymru basio Deddf Eiddo i reoleiddio'r farchnad dai fel mater o frys yn dilyn yr etholiad ym mis Mai. Os byddwn

yn parhau i oedi, ni fydd y Gymraeg yn parhau fel iaith gymunedol. Wedi degawdau o drafod, daeth amser gweithredu.

“Yn ogystal, fel rhan o'n gweledigaeth 'Mwy Na Miliwn – Dinasyddiaeth Gymraeg i Bawb', rydyn ni'n galw ar lywodraeth nesaf Cymru i gyflwyno pecyn o fesurau er mwyn trawsnewid y farchnad dai, megis trethi ar dwristiaeth, elw landlordiaid ac ail dai. Dylai ein gwleidyddion fod yn gweithio er budd pobl gyffredin a'n cymunedau, yn hytrach nag er budd y cyfoethog.”

**Rali Fawr
Nid yw Cymru ar
Werth**

**Gorffennaf 10 – 1yp
Argae Tryweryn**

**Delyth Jewell
Dafydd Iwan**

Rhodddwyd Tŷ'r Cymry, canolfan Gymraeg yn ardal y Rhath, i Gymry Cymraeg Caerdydd yn 1936 fel man cyfarfod, er mwyn hyrwyddo'r iaith a statws cyfansoddiadol Cymru. Mae ganddo dreftadaeth gyfoethog o bwys cenedlaethol, fel man twf i gymaint o fudiadau sydd wedi cyfrannu at drawsnewid tynged y Gymraeg, fel Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru, yr Urdd, Plaid Cymru, Menter Caerdydd, Mudiad Meithrin, y Gynghrair Geltaidd, a mwyl.



Yŷ'R CYMRY

Steve Blundell

Yn anffodus mae hanes diweddar y Tŷ yn destun siom – mae dyfodol y lle mewn perygl ar hyn o bryd ac mae rhai aelodau yn brwydro i'w achub.

Mae hanes dwfn gan Gymdeithas yr Iaith yno hefyd. Mae'r Tŷ wedi bod yn gartref i swyddfa'r Gymdeithas yng Nghaerdydd ers o leiaf ddeugain mlynedd, ac mae ein hanes gyda'r adeilad yn mynd yn ôl ymhellach na hynny. Dyma eitem yn y Dinesydd o 1973:



Pwyllgor o ddeuddeg sydd i fod i reoli'r Tŷ, ond does dim ond tri ohonyn nhw'n weddill, ac mae dau o'r rheini yn mynnu gwerthu'r adeilad, yn wyneb gwrthwynebiad clir y gymuned y maen nhw i fod i weithredu er ei budd.

Yr haf diwethaf, pan gadarnhawyd ofnau nad oedd tynged y tŷ fel canolfan Gymraeg yn ddiogel, daeth grŵp o wirfoddolwyr lleol ynghyd i geisio ei ddiogelu. Lluniodd y grŵp gynllun trawiadol i ailddatblygu'r adeilad, gan arddangos potensial cyffrous y ganolfan i gyflawni nodau gwreiddiol y rhodd ar gyfer y dyfodol. Mae'r cynllun yn hygred iawn, gyda rhestr o wirfoddolwyr sy'n frwd i fod yn ymddiriedolwyr newydd, cefnogaeth amryw fudiadau fel cwsmeriaid a phartneriaid, ffynonellau grantiau, a llorgynlluniau pensaernïol ar gyfer opsiynau addasu.

Ond mae'r ymddiriedolwyr wedi ei wrthod yn swtā, heb ddarparu unrhyw resymeg na chyfiawnhad.

Ocsiwn

Hyd yn oed wedi hyn, roedd hi'n sioc ac yn siom fawr gweld y Tŷ yn cael ei restru, gyda dim ond pythefnos o rybudd, ar gyfer ocsiwn ar-lein ar y 29ain o Fawrth, fel math o werthiant clirio. Diolch byth, erbyn y 26^{ain}, tynnwyd y Tŷ oddi ar yr ocsiwn, ond gyda bwriad i'w ail-restru ym mis Mai. Does dim rheswm penodol wedi ei gyhoeddi, ond mae'r Gymdeithas wedi bod yn ofalus i barhau ein tenantiaeth busnes, ac rydym wedi bod yn mynegi'n hawliau fel tenant mewn meddiant, gan ofyn yn gyson, yn ofer hyd yn hyn, am drafodaeth.

Siomedig dros ben oedd darganfod bod y plac hanesyddol a oedd ar flaen y Tŷ, yn nodi'r rhodd anrhydeddus i'r gymuned, wedi ei dorri i ffwrdd, gan adael ond bony'n trist o farmor ar ei ôl.



Mae'r ymgyrch yn parhau. Mae gwefan newydd i'r Tŷ fel sefydliad ar y gweill, a sawl ffrwd arall o waith yn digwydd i ddylanwadu ar y sefyllfa, felly cadwch olwg am ffyrdd i nodi'ch cefnogaeth.

Mae'n rhaid dweud ei bod hi'n eithriadol o rwystredig a siomedig ein bod yn gorfod treulio amser ac egni yn ymgyrchu i arbed adnodd sy'n perthyn i'r gymuned Gymraeg yn barod.

Mae si wedi bod yn y wasg am ddefnyddio arian gwerthiant ar gyfer canolfan newydd, ond does dim ymrwymiad o gwbl i hynny, ac mae pryderon difrifol y bydd yr arian yn diflannu i gronfeydd mudiadau Gymraeg, gan amddifadu'r gymuned nid yn unig o gyswllt â threftadaeth gyfoethog a phwysig, ond hefyd gofod Cymraeg pwysig fel cyfleuster sy'n eiddo iddyn nhw.

Anodd yw deall pam maen nhw'n gwrthod gwrando ar y llu o leisiau sydd o blaid y cynllun adfer, ac yn mynnu bwrw ymlaen i werthu cyn rhoi cyfle i griw galluog brwd wneud y gorau o'r adnodd prin hwn. Pwy a ŵyr pam maen nhw mor awyddus i gael eu cofio fel y rhai a fynnodd gau Tŷ'r Cymry, er gwaethaf gwrthwynebiad cadarn, ar ôl 85 mlynedd o hanes disgrair.

Ein bwriad yw atal hynny.



RALI FAWR NID YW CYMRU AR WERTH

Delyth Jewell / Dafydd Iwan

***10 Gorffennaf 2021 – 1yp
Argae Tryweryn***

